

Cwestiynau i'w gofyn i'ch rhagnodydd am feddyginiaethau gwrthseicotig



Cefndir

Os ydych yn byw gyda dementia efallai y byddwch weithiau'n teimlo'n ofidus, yn ofnus neu'n rhwystredig. Gall hyn arwain at weiddi, gofyn cwestiynau dro ar ôl tro, neu gerdded o gwmpas drwy'r amser. Dylid rhoi cynnig ar ddulliau nad ydynt yn feddyginiaeth yn gyntaf i helpu i leddfu gofid.

Os ydych chi'n profi symptomau seicotig, fel rhithweledigaethau (clywed lleisiau neu weld pethau nad ydyn nhw yno mewn gwirionedd) neu rithdybiau (credu bod rhywbeth yn real neu'n wir pan nad yw) gall y rhain achosi cynnwrf difrifol, neu ymddygiad ymosodol. Gall yr ymddygiadau hyn olygu eich bod mewn perygl o niweidio eich hun neu eraill. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai y cewch bresgripsiwn am feddyginiaeth wrthseicotig.

Dylech chi, eich teulu a'ch gofalwyr fod yn rhan o'r broses o benderfynu a fydd meddyginiaeth wrthseicotig yn cael ei rhagnodi ar eich cyfer. Bydd gofyn y cwestiynau canlynol i'ch rhagnodydd yn eich helpu i ddarganfod mwy am pam y gallai meddyginiaeth wrthseicotig gael ei rhagnodi i chi.

Cwestiynau



Pam mae meddyginiaeth wrthseicotig yn cael ei rhagnodi i mi? Pa ymddygiadau penodol allai helpu?



A oes unrhyw beth y mae angen i chi ei wybod amdanaf i weithio allan beth sy'n achosi fy ngofid?



A ydych chi wedi diystyru unrhyw achosion meddygol posibl (fel haint, poen neu rywmedd)?



A oes unrhyw driniaethau nad ydynt yn feddyginiaeth a allai helpu ond na rhoddwyd cynnig arnynt eto?



Beth yw sgîl-ffeithiau'r feddyginiaeth wrthseicotig? Os caf unrhyw sgîl-ffeithiau, beth ddylwn i ei wneud?



Sut byddaf yn gwybod a yw'r feddyginiaeth wrthseicotig yn gweithio?



Pryd fydd y defnydd o'r feddyginiaeth wrthseicotig yn cael ei adolygu? Beth yw'r cynllun ar gyfer atal triniaeth gyda'r feddyginiaeth?



Beth all fy ngofalwr ei wneud i'm cefnogi?

